| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **7 Mehefin 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Cyfryngau Cymdeithasol** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofyn i Aelodau am eu barn ynglŷn â'r dull mwyaf addas o ddarparu canllawiau i aelodau etholedig ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

## 2 CEFNDIR

2.1 Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol ym mhob agwedd ar fywyd wedi dod yn ddull cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n cael ei dderbyn.

2.2 Mae awydd cynyddol ymysg pob rhan o gymdeithas i gael gwybodaeth a chyfathrebu trwy wahanol fathau o gyfryngau cymdeithasol fel Twitter, Facebook ac ati.

2.3 Mae cyfryngau cymdeithasol yn derm sy'n disgrifio ffyrdd hawdd o gyhoeddi gwybodaeth ar y rhyngrwyd. Mae'r term yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i ddisgrifio sut mae unigolion, cwmnïau a chyrff eraill yn rhannu gwybodaeth a chreu trafodaethau ar-lein.

2.4 Mae hwylustod y dull hwn o rannu gwybodaeth a'r nifer cynyddol o bobl sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth yn golygu y bydd y ffordd y mae Cynghorau a Chynghorwyr yn rhyngweithio â'r cyhoedd yn newid.

2.5 Er bod nifer o fanteision i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae peryglon hefyd os nad ydych yn ofalus. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn ei ganllawiau ar y Cod Ymddygiad yn cyfeirio droeon at ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae'r Ombwdsmon yn atgoffa aelodau fod y Cod Ymddygiad yn berthnasol i'w gweithgareddau ar-lein yn yr un modd ag y mae'n berthnasol i agweddau eraill o'u rôl.

2.6 Mae nifer o awdurdodau wedi darparu canllawiau i Aelodau ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae'r dogfennau hyn yn amrywio o fod yn wybodaeth ategol i'r Cod Ymddygiad a chyngor yr Ombwdsmon i ddogfennau mwy cyfannol sy'n rhoi cyngor ynglŷn â'r defnydd y gellir ei wneud o gyfryngau cymdeithasol ac adrannau penodol ar faterion posibl yn ymwneud ag ymddygiad.

2.7 Mae potensial i ymgysylltu i raddau helaethach trwy’r cyfryngau cymdeithasol os bydd y Cyngor yn mabwysiadu polisi o ddarlledu ei gyfarfodydd ar y we. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod darlledu ar y we’n ffordd i gysylltu â rhannau o’r gymuned sy’n dibynnu ar dderbyn eu gwybodaeth ar-lein ac sydd efallai’n dymuno cyfathrebu â’r Cyngor a’r Cynghorwyr trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

2.8 Yn ddiweddar darparwyd hyfforddiant i aelodau etholedig ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

2.9 Paratowyd canllawiau i aelodau etholedig yn 2012 ynglŷn â defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae copi o’r canllawiau hyn wedi ei atodi yn Atodiad 2 i’r adroddiad hwn.

## 3 ARGYMHELLION

3.1 Bod Aelodau’n ystyried rhagoriaethau cyflwyno protocol ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.